# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 28.02.11

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Gwyn Williams.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Stephen Churchman (aelod etholedig); Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa (aelodau annibynnol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CYHOEDDIAD

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r dyddiadau a ganlyn:-

- Cynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru ar 5 Hydref, 2011 mewn lleoliad i'w gadarnhau yng Nghanolbarth Cymru;
- Cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 15 Ebrill, 2011 yng Nghonwy.

Gofynnwyd hefyd i'r aelodau am eu barn ynglŷn â'r syniad o gynnal rhyw fath o ffug-wrandawiad yn sesiwn y prynhawn o'r gynhadledd ar 5 Hydref. Mynegwyd cefnogaeth i hynny a nododd y Swyddog Monitro y byddai'n pasio'r farn yma ymlaen i'r trefnwyr.

## 3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD LOUISE HUGHES

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor benderfynu ar gais am ollyngiad gan y Cynghorydd Louise Hughes, Cyngor Gwynedd.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at baragraff 5 o'i hadroddiad oedd yn nodi y caniataodd y pwyllgor ollyngiad i'r cynghorydd ar 9 Medi, 2008 fel a ganlyn:

*"Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Louise Hughes dan baragraff 2(ch) a (d) i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol unrhyw ysgol lle mae plentyn y Cynghorydd Hughes yn ddisgybl."*

Ers hynny, bu'r Cyngor yn trafod cynllun ym Mro Dysynni i sefydlu ysgol ardal yn Llanegryn i wasanaethu dalgylchoedd presennol Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn (lle mae plentyn y cynghorydd yn ddisgybl) a Llwyngwril (sydd yn ward y cynghorydd). Hefyd, fel rhan o'r un pecyn 'roedd yna gynnig i gau Ysgol Aberdyfi a throsglwyddo plant i Ysgol Penybryn yn Nhywyn. Manteisiodd y cynghorydd ar y gollyngiad i siarad a phleidleisio ar y cynllun yn gyffredinol, ac eithrio pan drafodid Ysgol Llanegryn.

Fodd bynnag, wrth i'r drafodaeth ddatblygu ac i gynigion y Cyngor ddod yn fwy eglur, 'roedd wedi mynd yn amhosibl i'r swyddogion gyfarwyddo'r cynghorydd bod modd iddi siarad ar un ysgol, heb effeithio ar y lleill yn y pecyn. 'Roedd y cynghorydd wedi derbyn yr arweiniad hwnnw ac wedi gadael y siambr yn ystod trafodaethau diweddar. Hefyd, gan y byddai'r ysgol ardal newydd yn cymryd lle'r ysgol lle mae plentyn y cynghorydd yn ddisgybl ar hyn o bryd, fe'i chynghorwyd i beidio cymryd rhan yn y drafodaeth ar sefydlu'r ysgol ardal newydd. Eto, 'roedd yr aelod wedi derbyn yr arweiniad yma, er nad oedd yn hapus ynglŷn â'r sefyllfa.

'Roedd plentyn y cynghorydd ym Mlwyddyn 5 ar hyn o bryd, ac 'roedd y cynghorydd wedi awgrymu nad oedd ganddi fuddiant gan y byddai ei phlentyn wedi gadael Ysgol Llanegryn cyn i'r ysgol ardal newydd agor. Fodd bynnag, 'roedd y Swyddog Monitro wedi ei chynghori na ellid damcaniaethu ynglŷn â beth allai ddigwydd yn y dyfodol a bod rhaid i'w phenderfyniad i ddatgan fod yn seiliedig ar ei hamgylchiadau ar y diwrnod y mae'r mater dan ystyriaeth.

Trafodwyd lleoliad yr ysgol ardal newydd yn y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 24 Chwefror, ond derbyniwyd cais y cynghorydd am ollyngiad yn rhy hwyr i'r Pwyllgor Safonau fedru ystyried y mater cyn hynny. Byddai'r Cyngor llawn yn trafod y mater yfory a byddai penderfyniad heddiw yn effeithio ar yr hyn fyddai'n digwydd yn y Cyngor.

Nodwyd bod y cynghorydd wedi gofyn am hawl i aros yn yr ystafell pan fydd y Cyngor yn trafod yr ysgol ardal newydd. Eglurwyd nad oedd safiad y Côd Ymddygiad wedi bod yn glir ar hyn yn y gorffennol. Fodd bynnag, 'roedd barnwr yn y Llys Apêl wedi dyfarnu mewn achos blaenorol, petai gan gynghorydd fuddiant, y gallai ei bresenoldeb / phresenoldeb yn yr ystafell ddylanwadu ar y drafodaeth, yn enwedig os oedd yn digwydd bod yn berson dylanwadol. Gan hynny, 'roedd o'r farn na fyddai i aelod ymneilltuo o'r cyfarfod yn ddigonol, ac y byddai'n rhaid iddo / iddi adael yr ystafell er mwyn gwarchod buddiannau'r cyhoedd. O ganlyniad i'r farn honno, 'roedd y Côd Ymddygiad bellach yn datgan yn glir, oni chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau, bod rhaid i unrhyw berson sydd â buddiant sy'n rhagfarnu adael yr ystafell.

Nodwyd bod y Cynghorydd Louise Hughes yn rhoi ei hachos ymlaen ar y sail mai hi yw cynrychiolydd y bobl leol. 'Roedd yn datgan bod rhaid iddi gynnal trafodaethau gyda'i hetholwyr ac egluro iddynt yr hyn sy'n digwydd yn y Cyngor, ac er na allai gario eu llais i'r Cyngor, byddai gallu arsylwi ar y drafodaeth yn galluogi iddi wneud ei gwaith yn well yn y gymuned leol. Hefyd, 'roedd trafodaeth wedi bod ynglŷn â phwy sy'n cynrychioli'r gymuned, os nad yw'r aelod lleol yn gallu cymryd rhan.

Nodwyd ymhellach mai dyma'r cais cyntaf o'i fath i ddod gerbron unrhyw bwyllgor safonau yng Nghymru ac y byddai'r penderfyniad, gan hynny, yn gosod cynsail pwysig ar gyfer y dyfodol.

Ystyriodd y pwyllgor y cais yng nghyd-destun datblygiad y drafodaeth, y cefndir cyfreithiol a'r teimladau cryf yn y gymuned leol gan bwyso a mesur dyletswydd aelod lleol i fod yn

cynnal trafodaethau yn ei ward yn erbyn amhriodoldeb cael aelod sydd â buddiant yn cymryd rhan.

Mynegodd rhai aelodau gefnogaeth i'r cais ar y sail ei bod yn bwysig i'r cynghorydd fedru dilyn trywydd y drafodaeth a mynd â'r genadwri yn ôl i'w ward. Fodd bynnag, mynegodd sawl aelod arall wrthwynebiad i'r cais ar y sail:-

- Ei bod yn anodd i aelod lleol gynrychioli ei gymuned / chymuned pan mae ganddo ef / hi fuddiant.
- Y byddai caniatáu'r cais hwn yn gosod cynsail peryglus ar gyfer y dyfodol.
- Y byddai canlyniad unrhyw bleidlais gofrestredig ar gael i'r cynghorydd yng nghofnodion y cyfarfod.
- Y gallai'r bobl leol fydd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus gyfleu'r hyn ddigwyddodd yn y cyfarfod i'r cynghorydd.
- Y gallai presenoldeb aelod sydd â buddiant yn yr oriel gyhoeddus ddylanwadu ar y drafodaeth a gwneud i rai o'r aelodau eraill deimlo'n anghyffyrddus.
- Y byddai'n anodd iawn mynd yn groes i'r farn gyfreithiol a roddwyd gan y Swyddog Monitro.

Nodwyd bod hwn yn benderfyniad anodd iawn i'w wneud a mynegwyd cryn gydymdeimlad â'r cynghorydd yn ei dymuniad cwbl ddidwyll i gynrychioli ei hetholwyr. Fodd bynnag, wedi pwyso a mesur y cais yn ofalus, daethpwyd i gonsensws na fyddai'n briodol caniatáu gollyngiad yn yr amgylchiadau.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais am ollyngiad ar sail:-**

- **Yr arweiniad cyfreithiol a roddwyd i'r pwyllgor fod y Llys Apêl wedi dyfarnu mewn achos blaenorol y dylai unrhyw aelod sydd â buddiant sy'n rhagfarnu adael yr ystafell, yn hytrach nag ymneilltuo o'r cyfarfod yn unig, oherwydd y gallai ei bresenoldeb / phresenoldeb yn yr ystafell ddylanwadu ar y drafodaeth;**
- **Y perygl o osod cynsail i'r dyfodol ar gyfer ymdrin ag achosion eraill tebyg.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.35am.